TRR 03

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad i recriwtio a chadw athrawon

This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Inquiry into Teacher recruitment and retention

Ymateb gan: Unigolyn
Response from: Individual

Sylwais ar yr alwad am dystiolaeth a meddwl y gallai fod o ddiddordeb i mi rannu fy mhrofiad i.

Ar ôl cwblhau gradd ac ystod o raddau ôl-raddedig penderfynais ddod yn athro a dilyn cwrs hyfforddi athrawon yn 2013-14. Mae'n debyg y baswn i wedi gwneud hynny ta' beth - mae llawer o fy nheulu yn athrawon gan gynnwys fy mam, ac roeddwn i'n teimlo'n angerddol mor bwysig oedd dysgu fel ffordd o gyfrannu at gymdeithas - ond roedd grant o £10k ar gael hefyd ar gyfer y pwnc penodol roeddwn i'n ei astudio (Cymraeg), a olygai na fyddai dilyn y cwrs yn y bôn yn costio arian i mi gan y byddai'r grant yn ddigon i'm cynnal yn ystod y flwyddyn honno (gan roi cyfle hefyd i mi gwblhau fy pHD), a'm gadael wedyn heb golli dim byd pe bawn i'n penderfynu peidio a chadw'r peth i fynd.

Cefais brofiad cymysg yn ystod yr ymarfer dysgu. Gwelais lawer o athrawon yn llafurio dan amgylchiadau caled i ysbrydoli ac i gyflawni gwyrthoedd gyda rhai plant. Gwelais hefyd lawer o sinigedd ac o athrawon oedd wedi cael digon ac nad oedd ganddynt unrhyw hyder yn y system.

Cefais swydd barhaol wedyn mewn ysgol uwchradd yn xx xxxxxxxx Cymru. Fodd bynnag ymhen tua chwe wythnos, roeddwn i wedi ymddiswyddo. Y rhesymau ar y pryd oedd

- roeddwn i'n teimlo mai dim ond dysgu plant i basio arholiadau oeddwn i. Cymraeg oedd fy mhwnc ac roedd yr ysgol dan sylw'n un oedd yn cael canlyniadau da (2il iaith). Fodd bynnag nid oedd y plant yn y dosbarth blwyddyn 11 - oedd fely wedi bod yn astudio'r Gymraeg am o leiaf 5 mlynedd - yn gallu ymateb yn Gymraeg i gwestiynau llafar syml (Beth yw dy enw ac ati) na delio ag unrhyw fath o gyd destun nad oedd wedi'i sgriptio'n llwyr. Doedd yr ysgol ddim yn eu dysgu nhw i siarad cymraeg a doedd hyn ddim yn cyd-fynd o gwbl gyda'r ffordd yr oeddwn i wedi hyfforddi i ddysgu na'r rheswm roeddwn i eisiau bod yn athro.

- Codais hyn gyda'r pennaeth adran ond ei hymateb hi oedd "jyst dysga nhw i basio'r prawf, os maen nhw eisiau siarad cymraeg gawn nhw astudio fe yn y coleg".

- Yn yr arsylwadau gwersi rhoddwyd pwyslais mawr ar bethau nad oeddynt ynddynt eu hunain yn bwysig. e.e. cefais fy meirniadu am nad oedd rhai plant wedi ysgrifennu "gwaith dosbarth" yn eu llyfrau, ac am gymryd y gofrestr yn ddistaw fy hunain (drwy edrych pwy oedd yn bresennol yn y dosbarth) ynlle gwastraffu amser drwy alw enwau.

- O ran maes dysgu rhoddwyd pwerbwynt i mi yn amlinellu gwahanol bethau roedd disgywl i blant dysgu dros flwyddyn, gyda chyfartaledd o ryw 3-5 sleid y wers. Nid oedd hi'n amlwg o gwbl beth oedd pwrpas rhai o'r sleidiau ac roedd disgwyl yn y bon i mi lunio pob gwers ar gyfer pob dosbarth yn gyfangwbl o'r gwaelod i fyny. Clywais gan eraill a wnaeth ymarfer dysgu ar yr un pryd i'w hysgolion nhw rhoi blwyddyn llawn o gynlluniau gwers llawn iddynt.

- xxxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxx xxxxxx xxxxxxxx xxxxxxx xxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxx xxxxxxx xxxxxx xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxxxxxxx xxxxxxxxxx xxxxxxxxxx xxxxxxxxxxxxx

Roedd y cyfuniad hwn o lwyth gwaith afresymol (llawer ohono'n hollol diangen) a diffyg parch ac ymddiriedaeth yn fwy nag yr oeddwn i eisiau gorfod ymdrin ag ef, felly penderfynias fy mod i wedi cael digon, a gadael.

Wedi gadael dysgu rydw i wedi cael ystod o swyddi yn y sector cyhoeddus yn y degawd ers hynny. O'i gymharu â lle y byddwn i wedi bod pe bawn i wedi aros yn athro, anodd gweld unhryw ffordd nad yw fy ngyrfa bellach yn well o lawer. Rydw i'n gweithio'n llawer llai caled, yn ennill llawer mwy o arian, hyblygrwydd i weithio rhan amser a dilyn fy niddordebau y tu allan i gwaith - popeth yn well o lawer.

Wrth gwrs mae'n debyg bod rhai o'r problemau'n bethau cysylltiedig â'r ysgol benodol y gweithiais i ynddi, ond mae rhai pethau'n ymddangos i mi'n weddol gyffredin:

Os am wella recriwtio a chadw athrawon mae'n rhaid gwneud y swydd yn un fwy deniadol o'i gymharu â'r opsiynai amgen sydd bellach yn agored i bobl. Mae tâl yn ran o hynny ond dim ond rhan - doeddwn i ddim yn cael yr argraff bod ar athrawon eisiau rhagor o arian, ac yn wir roedd cymerodd nifer o flynyddoedd cyn i mi allu cyrraedd yr un cyflog eto ag y bûm yn ei dderbyn fel athro. Mae tal athrawon eisoes yn cymharu'n ffafriol â llawer o opsiynau amgen. Hyd y gwela i mae grantiau i gael pobl i ddilyn cyrisau hyfforddi athrawon yn denu ymgeiswyr anghymwys a'i gwneud hi'n haws i bobl gadael (fel y gwnaethant gyda fi) heb ddatrys dim o'r pethau sy'n golgyu bod pobl yn gadael y proffesiwn - cyfystyr â phwmpio'n galetach pan fod twll yn y teiar.

Fodd bynnag, dyma rai syniadau:

- Gallwn leihau'r disgwyliadau o ran manylbeb cynllunio (heb son am nonsens fel taclusrwydd llyfrau) a seilio asesiadau ar y gwersi eu hunain ac ar ddeilliannau.

- Canolwch y cwricwlwm a chynllunio - os ydyn ni am ddweud bod rhai pethau sydd angen cael eu haddysgu yna dwedwch beth ydyn nhw, peidiwch â disgwyl i'r athrawon benderfynu.

- Mae'r dystiolaeth am effeithiolrwydd gwaith cartref yn gymysg ar y gorau. Yr hyn mae'n ei wneud yn bennaf yw creu gwaith marcio i athrawon. Gallwn leihau'r disgwyliadau yma hefyd.

- Gwirion yw disgywl i ysgolion fod yn gryfifol am bob agwedd o addysg; ai drwy cymhwyster ffurfiol mae dysgu pob peth?

- Ni ddylid fod disgwyl i athrawon wneud pethau fel "bod ar ddyletswydd cinio/bws" na phethau eraill sydd y tu allan i graidd eu swyddogaeth fel addysgwyr. Nid gofal plant mo athrawon.

- Talwch ragor o arian i gynorthwywyr dosbarth. Maen nhw gymaint o help i athrawon.

- "Prif ffrydio" - os am wella sgiliau mewn X yna gwersi X yw'r ffordd o wneud hyn, nid disgwyl i e.e. athrawon mathemateg darbwyllo plant o bwysigrwydd bwyta'n iach tra'n disgywl i athrawon addysg gorfforol ofyn i blant wneud syms.

- Cwtogwch ar elfennau gorfodol y cwricwlwm e e y fagloriaeth Gymreig. Dichon bod ryw fudd i'w ddangos ym mhob pwnc ond ag amser a sylw'n gyfyng, beth yw ein blaenoriaethau? Mewn modd tebyg mae'n rhaid gofyn y cwestiwn a yw'r Gymraeg fel pwnc gorfodol i bob plentyn mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mewn gwirionedd, yn heplu'r iaith? Ychydig yw'r dystiolaeth ei bod yn creu siaradwyr hyderus a gall danseilio addysg Gymraeg. Gellid cronni adnoddau ar y rhai sydd wirioneddol eisiau dysgu'r iaith.

Fel mae'n amlwg dydw i heb fod yn ymwneud ag addysg am gryn amser bellach felly hwyrach bod tystiolaeth mwy diweddar o ragor o ddefnydd, ond os yw fy argraffiadau aneglur o unrhyw ddefnydd, yna rhaid bod hynny'n werth rhywbeth.